**Cofnodion Cyfarfod CCG Mai 27.5.21**

**Am 7.45yh Ar-lein**

**Cafwyd munud o dawelwch er parch i'r Cynghorydd Geraint Wigley.**

**Talwyd teyrnged i Geraint gan Siôn Ifans (Cadeirydd).** Cydnabuwyd gyda diolch y gwaith gwerthfawr a wnaeth Geraint dros y Cyngor a'r ardal yn ystod yr hanner cant o flynyddoedd diwethaf ers iddo ymuno â'r Cyngor yn ddyn ifanc. Roedd Geraint yn un o hoelion wyth y Cyngor y gellid troi ato am gyngor unrhyw bryd a dibynnu arno bob amser i daflu goleuni ar unrhyw faterion oedd angen eu datrys ac ymdrin ag hwy'n deg ac yn gytbwys.

**Anfonir cerdyn i'r teulu ar ran y Cyngor gan y Clerc.**

**19:209: Presennol:** Siôn Ifans (Cadeirydd), Gareth Jones, Gareth Owen, William Owen, Huw Williams, Aled Griffiths, Paul Hughes, Deryck Lewis, Gwenfair Davies, Elwyn Vaughan, Sandra Evans (Clerc)

**19:210: Ymddiheuriadau:** Gwen Lloyd, Iwan Jones, Dafydd Evans, Aeron Pughe

**19:211: Datganiadau o ddiddordeb:** Dim

**19:212: Cyflwyno a derbyn Cofnodion Ebrill** Cynigiodd Siôn Ifans fod y cofnodion yn gywir. Fe'i heiliwyd gan Huw Williams.

**19:213: Materion yn codi o'r Cofnodion**

- **Hyfforddiant i'r Clerc gyda Gloversure.** Cafwyd awr o hyfforddiant buddiol.
- **Bancio ar-lein** Gwiriwyd gan Un Llais Cymru bod clercod yn cael gweithredu fel llofnodwyr. Ar hyn o bryd y Clerc sy'n gyfrifol am gyflwyno cam un o'r taliadau a Paul Hughes sy'n gyfrifol am yr ail gam.
- **Diweddariad am y Cyfrifon Blynyddol** (19:215:1) Mae'r cyfrifon gydag Whittingham Riddell ers dechrau mis Mai yn unol â'r gofyn. Bydd y gwaith yn mynd i gyfrifydd uwch ar y 7fed o Fehefin.

**19:214: Cynllunio** Cyfeirnod: 21/0619/FUL Cynnig: Gosod neidyddion/transformers allanol a gwaith ceblau cysylltiedig i dyrbinau gwynt gweithredol, Fferm Gwynt Cemaes, Mynydd Cemaes. Cymeradwywyd y cais. Cynigiwyd hyn gan Gwenfair Davies ac fe'i heiliwyd gan Gareth Owen

**19:215: Materion ariannol ac eitemau i'w talu**

- Gloversure – Tystysgrif SSL £30.00 y flwyddyn +TAW Cynigiwyd y dylid gwneud hwn gan Gwenfair ac fe'i heiliwyd gan Aled Griffiths.
- Gloversure Hyfforddiant i'r clerc £80.94

**19:216: Torri gwair mynwentydd Darowen a Llanwrin.**

Gosodwyd hysbyseb yn y Blewyn Glas a chafwyd dau gais: Peter Jones a gynigiodd wneud y gwaith am £1350 gydag yswiriant atebolrwydd cyhoeddus hyd at £5,000,000 o bunnau ac Edward Jones Evans, a gynigiodd wneud y gwaith am £1200 gydag yswiriant atebolrwydd cyhoeddus am hyd at £1,000,000 o bunnau. Diolchwyd i'r ymgeiswyr am ddangos diddordeb yn y gwaith. Penderfynwyd rhoi'r gwaith i Peter Jones ar sail profiad a gwerth yr yswiriant atebolrwydd cyhoeddus.

*Nodir bod y clerc wedi ceisio cyngor Un Llais Cymru am y broses gan ei bod yn perthyn i un o'r ymgeiswyr. Er nad oedd rhaid i'r Clerc ymadael o ran y gyfraith gofynnwyd iddi ymadael â'r rhan hwn o'r cyfarfod er pwysleisio nad am amheuon ynglŷn â'i chyfrinachedd oedd wrth wraidd hwn. Cymerodd Aled Griffiths le'r Clerc.*

**19:217: Adroddiadau'r Cynghorwyr**
**19:217:1: Adroddiad gan y Cynghorydd Sir, Elwyn Vaughan:**

- Mae trafodaethau'n parhau am ddatblygu cae chwaraeon i'r Ysgol Uwchradd ym Machynlleth.
- Mae cynlluniau ar y gweill i gael bydwraig sy'n siarad Cymraeg i Fro Ddyfi.
- Mae Cymdeithas Mynyddoedd Cambria'n cyflwyno cais i osod statws ardal o harddwch naturiol eithriadol ar yr ardal sy'n ymestyn o Fro Ddyfi i Lanymddyfri.
- Mae arian ar gael yn uniogyrchol o San Steffan i Gyngor Sir Powys. Gwahoddir ceisiadau am syniadau ar gyfer prosiectau.

**19:217:2: Adroddiad Llywodraethwr ar Ysgol Glantwymyn- Aled Griffiths** Penodwyd Anwen Jarman yn athrawes yn ddiweddar gan olygu y bydd pedwar dosbarth o fis Medi ymlaen.

**19:217:3: Adroddiad gan Gwenfair Davies.**

**19:217:4: Adroddiad Canolfan Glantwymyn – Paul Hughes** Gohiriwyd y cyfarfod yr wythnos ddiwethaf er parch i deulu Rhosdyrnog.

**19:218: Gohebiaeth:**

**19:218:1: Holiadur Biosffer Bro Ddyfi** Bydd Aled Griffiths yn ymateb ar ran y Cyngor.

**19:218:2: Llythyr Iechyd Bro Ddyfi** Penderfynwyd peidio ag ymateb i'r llythyr gan and oedd unrhyw ymgais gwirioneddol i'w weld i ddatrys y problemau a godwyd a bod yr ymagwedd amddiffynnol hefyd yn parhau yn amlwg. Tynnwyd sylw gan Lucy Cockram er hynny at bwysigrwydd cynnwys manylion llawn mewn perthynas â chwynion. Nid oes modd i'r Cyngor gynnwys manylion o'r math achos cyfrinachedd. Nodwyd felly fod cyflwyno cwynion a phryderon yn uniongyrchol i'r Cyngor Iechyd Cymunedol, gan aros yn hollol ddi-enw wrth i'r cwynion gael eu harchwilio ymhellach, yn ffordd well o lawer i symud ymlaen. Mae hon wedi cael ei phrofi eisoes gan unigolion lleol a'i chael yn effeithiol. Wrth i unigolion gysylltu'n uniongyrchol mae modd nodi manylion llawn sy'n angenrheidiol gan gynnwys dyddiadau, amseroedd ac enwau aelodau staff yn hollol gyfrinachol. Mae hyn oll yn caniatau archwilio pellach i'r pryderon. https://biap.gig.cymru/cysylltwch-a-ni/adborth-a-chwynion/Cynigiwyd hyn gan Gwenfair Davies ac fe'i heliwyd gan Siôn Ifans.

**19:218:3: Lle parcio o flaen Neuadd Jiwbilî Cemaes** Cafwyd cais gan Mrs.Maggie Jones am gyfraniad ariannol i greu ardal barcio i fan y Swyddfa Bost. Cost y prosiect yw £1450.00. Bydd Paul Hughes yn gwneud y gwaith. Anogir cyflwyno cais i Ymddiriedolaeth Melinau Gwynt Cemaes yn cynnwys manylion llawn a nodi pwy fydd yn elwa o'r datblygiad. Cynigiwyd hwn gan Gwenfair Davies ac fe'i heiliwyd gan Huw Williams.

**19:218:4: Haf o hwyl** Cafwyd llythyr yn cynnig nawdd ar gyfer gweithgareddau i blant. Bydd hwn yn cael ei anfon ymlaen i'r Mudiad Ysgolion Meithrin a'r Cynghorwyr.

**19.219: Unrhyw fater arall**
**19:219:1: Ciosg Cemaes** – Mae hwn erbyn hyn yng ngofal Deryck Lewis.
**19:219:2: Manhole ger Brynheulog, Cwmlline.** Pwysleisiwyd eto fod hwn yn berygl i'r cyhoedd. Bydd Elwyn Vaughan yn cysylltu â'r Adran Tai.
**19:219:3: Rhiw Tynrhos, Cwmlline** – Ffordd yn cwympo yn dilyn damwain. Bydd Elwyn Vaughan yn adrodd hwn i'r Adran Briffyrdd
**19:219:4: Pont Cemaes-** Carreg wedi disgyn o'r bont. Mae Aled Griffiths wedi symud y garreg o'r ffordd fawr er diogelu traffig. Bydd Elwyn Vaughan yn adrodd am hwn i'r Adran Briffyrdd.

Caewyd y cyfarfod am 21.55yh. **Cynhelir y cyfarfod nesaf am 7.30yh ar y 24ain o Fehefin**